**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Llywodraeth Cymru

Dyddiad | Date: 07 Rhagfyr 2022

Pwnc | Subject: Camau yn dilyn craffu ar waith gweinidogion

Annwyl Jeremy

Ysgrifennaf atoch yn dilyn eich sesiwn dystiolaeth weinidogol ar ein hymchwiliad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar 17 Tachwedd 2022. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar ichi am roi o'ch amser i ddod i drafod y materion hyn. Fel rhan o'r sesiwn, dywedais y byddai'r Pwyllgor yn gwneud gwaith dilynol ar rai materion, a amlinellir isod.

**Hyfforddiant i athrawon cyfrwng Cymraeg**

Mae cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn nodi'r canlynol:

> *rhaid i ni ddatblygu gweithlu addysg o ansawdd da i sicrhau bod pob dysgwr yn cael budd o gwricwlwm o'r radd flaenaf a'i fod yn mwynhau dysgu ac addysgu sy'n ei ysbrydoli i lwyddo mewn cymuned addysg gydweithredol ac arloesol, wedi ei chynllunio'n strategol a'i harwain yn effeithiol*

Mae'r cynllun hefyd yn cydnabod "*nid oes digon o bobl sy'n dewis dod yn athrawon yn y sector cyfrwng Cymraeg*." Mae'r cynllun yn amlinellu nifer o rwystrau sy'n ymwneud â recriwtio. Yn ystod ein sesiwn graffu, soniais am gyrsiau a ddatblygwyd gan Mudiad Meithrin mewn ymateb i oresgyn yr her o recriwtio staff i weithio mewn lleoliadau meithrin. Mae'r syniad hwn yn ymwneud â thargedu disgyblion ysgol yn gynharach yn y cylch addysg cyn iddynt ddechrau dilyn llwybr gyrfa – a thrwy wneud hynny, mae'n helpu i sicrhau bod y rhai a allai ystyried gyrfa mewn gofal plant yn cael y cyfle i gynllunio ar gyfer hyn yn gynnar. Mae Mudiad Meithrin wedi datblygu dau gwrs achrededig i ateb y galw cynyddol am staff cymwys mewn lleoliadau meithrin, sy'n dechrau'n gynnar ac mewn pryd ar gyfer TGAU, i annog disgyblion i gymryd diddordeb mewn cyfleoedd gwaith yn y lleoliad gofal.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym pa ystyriaeth rydych wedi'i rhoi i fynd ar drywydd syniadau tebyg er mwyn goresgyn yr heriau a ddaw o ran recriwtio staff i weithio mewn lleoliadau

meithrin cyfrwng Cymraeg. Yn yr un modd, byddwn yn ddiolchgar o ddeall mwy am ba ystyriaeth a roddwyd i annog disgyblion ar gam cynharach i ddilyn llwybr gyrfa ym maes addysg cyfrwng Cymraeg. Yn anffodus, fel y mae pethau ar hyn o bryd, pan fydd graddedigion yn dewis dilyn gyrfa ym myd addysg, bydd yn fwy heriol iddynt wneud hyn drwy gyfrwng y Gymraeg os nad ydynt wedi gwneud eu hastudiaethau drwy gyfrwng yr iaith. Rwy’n siŵr y byddwch yn cytuno y bydd unrhyw gyrsiau y gellir eu datblygu’n gynharach yn natblygiad plant yn helpu i oresgyn y rhwystr ystyfnig hwn.

**Data CYBLD ar effeithiau COVID-19 ar fynediad**

Yn ystod y cyfarfod, gofynnodd Heledd Fychan AS am effaith COVID-19 ar addysg cyfrwng Cymraeg. Gofynnodd Heledd pa ddata sydd ar gael ynghylch disgyblion yn cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a’r colledion a allai fod wedi digwydd oherwydd pandemig COVID-19. Dywedodd eich swyddogion wrthym yn y cyfarfod fod niferoedd, o edrych ar ddata diweddaraf CYBLD, “*wedi dechrau dod yn ôl i fwcl*”, a’n bod ni “*nôl lle ddylen ni wedi bod*”.

Fel rhan o'r drafodaeth hon, gofynnais a fyddech yn gallu rhannu data CYBLD â'r Pwyllgor. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu’r data ar gyfer eleni, ac ar gyfer y tair blynedd diwethaf.

Hefyd, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a yw’r data CYBLD sydd ar gael i’r cyhoedd drwy Stats Cymru hefyd ar gael fel canran o nifer y disgyblion sy’n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg yn dair a saith oed (cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 1), ac yn yr ysgol uwchradd (mynediad cyfnod allweddol 3). Os nad yw hwn ar gael, byddem yn ddiolchgar pe gallech ei wneud ar gael i'r cyhoedd.

Diolch i chi unwaith eto am roi o’ch amser i fynd i gyfarfod y Pwyllgor ar 17 Tachwedd 2022. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb i’n cwestiynau maes o law.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.